Y BONT
THE BRIDGE

Cefnogi chi drwy benderfyniadau am eich beichiogrwydd a'ch colled

Mae 'Y Bont' yn wasanaeth yng Ngogledd Cymru ac yng Nghaer sydd yn cynnig cefnogaeth i unrhyw un sydd angen gwneud penderfyniadau ynglyn a'u beichiogrwydd neu sydd wedi colli babi.

Plîs cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu i drefnu i siarad gydag aelod o'n tîm.

Rhif ffôn: 01978 359 645
Neges testun: 07749 391 181
E-bost: info@ybont.org.uk

Dod o hyd i ni ar

@ybontwrecsam

www.ybont.org.uk

DYMA PWY YDYN NI

Y Bont yw'r unig wasanaeth sydd yn ymroi i gefnogi eraill yn ystod gwneud penderfyniadau am eich beichiogrwydd neu drwy golli babi.

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw i weld pawb yng Ngogledd Cym-ru a Chaer yn cael eu cefnogi drwy'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch a'u beichiogrwydd neu golli babi

Mae yn bosib i asiantaethau lleol a gweithwyr iechyd gyfeirio i'r Bont. Yn dilyn hynny mae'n bosib wedyn i unigolion gael mynediad tuag at y gwasanaeth yn uniongyrchol

Ein Tîm

Mae holl wirfoddolwyr Y Bont wedi cwblhau'r hyfforddiant cydnabyddus cywir (neu maent gand-dynt cymwysterau cyfatebol). Yn ychwanegol, mae'r gwirfoddolwyr yn drbyn hyfforddiant rheolaidd. Mae bob gwirfoddolwyr hefyd yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd.

Pwy ydym ni y neu helpu?

Unrhyw un:

Mae ein gwasanaeth yma i gynnig cefnogaeth i unrhyw un sydd yn byw yng Ngogledd Cymru neu yng Nghaer. Mi rydym ni yn gallu cynnig cefnogaeth o'n canolfan yn Wrecsam, ar y ffôn neu ar lein. Mi rydym ni yn gallu cynnig cefnogaeth i unigolion neu i gyplau sydd yn mynd trwy rywbeth sydd wedi digwydd yn ddiweddar neu yn y gorffennol.

Tysteb:

> ***"Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ond mi roedd hi yn garedig, ac mi wnaeth hi ei wneud o'n hawdd iawn i siarad am y sefyllfa anodd hwn"***

Cleiant, Wrecsam

Penderfyniad beichiogrwydd:

Mae beichiogrwydd anfwriadol yn gallu bod anodd i unrhyw un. Mae'n bosib i chi deimlo emosiynau am-rywiol neu mae'n bosib eu bod yn anodd canolbwyn-tio a gwneud penderfyniadau. Mae'n bosib eich bod chi yn ffeindio pethau yn anodd oherwydd eich bod chi wedi darganfod abnormalrwydd ffoetws posibl. Mae gwasanaeth y Bont yma i gynnig lle i chi weithio drwy eich emosiynau a'ch cwestiynau. Mi rydym ni yn gallu helpu chi archwilio beth fyddai yn golygu i bar-hau gyda'r beichogrwydd, terfynu'r beichiogrwydd neu i gysidro mabwysiadu.

Colled ym meichogrwydd:

Terfyniad:
Yn dilyn terfynnu'r beichiogrwydd, mae'n bosib eich bod yn teimlo llawer o emosiynau amrywiol. Mae'r Bont yma i helpu chi weithio drwy'r rhain.

Colli babi neu eni babi yn farw:
Mae'n bosib i'r Bont gynnig gofal i rai sydd wedi colli babi yn y groth, rhai sydd wedi profi beichiogrwydd ectopig, rhai sydd wedi gorfod geni ei babi yn farw neu wedi colli ei babi newydd-anedig. Mae'r Bont yn cynnig rhaglen cefnogaeth strwythuredig i rai sydd wedi colli babi.

Cymorth ymarferol ac emosiynol:

Mae'r Bont yma i gynnig gofal a chefnogaeth cyn hired ag yr ydych ei angen. Os ydych angen sgwrs gyda rhywun neu angen cefnogaeth yn ystod apwyntiad anodd, mi wnawn ni gymaint ag y gallwn i helpu.

Rhif Cofrestredig yr Elusen: 1126108

Y BONT
THE BRIDGE